
Cofnodion Cyfarfod Awdurdod S4C
10 Gorffennaf 2014, S4C, Llanisien, Caerdydd

Cyfarfod Rhif 378

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Rheon Tomos	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
	Siân Lewis	(Aelod o'r Awdurdod)
	Hugh Evans	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Kathryn Morris	(Cyfarwyddwr Cyllid)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Carys Evans	(Pennaeth Dadansoddi) (eitem 9)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Bethan C. Williams	(Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)
Ymddiheuriadau:	Guto Harri	(Aelod o'r Awdurdod)
	Graffid Lloyd Lewis	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)

1. **Croeso a Datganiadau diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Hugh Evans a Siân Lewis i'w cyfarfod cyntaf fel aelodau'r Awdurdod. Gan fod penodiadau'r aelodau newydd wedi eu gwneud ar fyr rybudd yn y diwedd, nodwyd nad oedd modd i Guto Harri fynychu'r cyfarfod oherwydd ymrwymiad blaenorol.

Esboniwyd fod Hugh Evans wedi derbyn gwahoddiad i arsylwi yng nghyfarfodydd yr Awdurdod tan fydd ei dymor fel aelod yn cychwyn ym mis Tachwedd.

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. **Cofnodion cyfarfod 377** (a gynhaliwyd ar 12.06.14)

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 377.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y cofnodion.

3. **Materion yn Codi**

Adroddiad blynyddol

Nododd PW fod yr amserlen yn parhau i fod yn dynn ar gyfer cyhoeddi'r Adroddiad gan fod y trafodaethau gyda'r DCMS yn parhau. Y bwriad oedd cyhoeddi naill ai ar 16, 17, 21 neu 22 Gorffennaf. Mae swyddogion yn parhau i drafod y dyddiad gyda DCMS.

Diweddariad am ariannu Pobl y Cwm

[**Crynodeb:** Holwyd am y trafodaethau am gyfraniad ariannol S4C ar gyfer penodau'r haf a'r omnibws. Rhoddwyd diweddariad i'r Awdurdod. Cyflwynir diweddariad pellach yn dilyn cwblhau trafodaethau'r BBC gyda'r undebau.]

Ymchwiliad Ofcom i Ddarlledu Cyhoeddus

Nodwyd fod Ed Richards wedi rhoi gwybod y byddai cwmpawd adolygiad Ofcom yn benodol iawn y tro hwn. Doedd trafodaethau manwl ddim wedi eu cynnal hyd yma gydag Ofcom, ond fe fydd S4C yn ystyried darparu tystiolaeth pan yn briodol, a defnyddio cyfleoedd o fewn proses yr adolygiad i gyflwyno dadleuon ariannu digonol.

Y Ddarpariaeth o Eisteddfod yr Urdd

Cyfeiriwyd at y sylw o'r Wifren parthed y ddarpariaeth o Eisteddfod yr Urdd. Nododd DRh y byddai'n darparu rhagor o wybodaeth maes o law.

System ddi-bapur

Adroddwyd fod bwriad i gyflwyno system *Huddle* ym mis Medi ac y byddai hyfforddiant yn cael ei gynneg i'r Aelodau.

4. **Adroddiad y Cadeirydd**

Nododd HJ ei fod yntau a nifer o staff S4C wedi mynychu angladd Emyr Byron Hughes. Awgrymwyd y dylid ysgrifennu at deulu Emyr i nodi gwerthfawrogiad yr Awdurdod o gyfraniad Emyr i'r sianel.

Araith Cyfrwng

Nododd y byddai'n cyflwyno araithe yng Nghynhadledd Cyfrwng wythnos nesaf. Bwriedir i'r araithe ganolbwyntio ar yr heriau sy'n wynebu S4C, gan gynnwys ariannu digonol, llwyfannau digidol a

chynnwys o safon.

5. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd IHJ ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion isod.

Is-deitlau agored.

Yn ystod cyfarfod gydag aelodau o Ymddiriedolaeth y BBC holwyd pam nad yw S4C yn darparu is-deitlau agored ar gyfer ei holl allbwn. Mae swyddogion wedi ymchwilio i nifer o opsiynau gan gynnwys defnyddio'r Botwm Coch, ac ymddengys nad yw'n bosib cyflwyno is-deitlau agored fel *default*, ar draws pob llwyfan gyda'r gallu i'r gwylwyr eu diffodd. Bydd swyddogion yn cadw golwg ar ddatblygiadau posibl yn y dyfodol.

Straplins Marchnata

Esboniwyd fod gwaith yn parhau ar ddiweddarau negeseuon cyhoeddus S4C, ac y byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn yr hydref.

Trefn Cyfarfodydd a Rhaglen Waith yr Awdurdod

Esboniwyd bod swyddogion wedi ystyried opsiynau amgen ar gyfer trefn cyfarfodydd yr Awdurdod a'i raglen waith yn dilyn trafodaethau diweddar yr Awdurdod ar y pwnc. Roedd yr opsiynau a ystyriwyd yn cynnwys parhau gyda'r amserlen bresennol ond neilltuo'r diwrnod cyfan i waith yr Awdurdod, cyfarfod bob deufis gyda chyfarfodydd y pwyllgorau yn cael eu cynnal yn y mis rhwng cyfarfodydd yr Awdurdod, neu flaenoriaethu materion strategol megis cynnwys, dadansoddi, cyfathrebu a chyllid, i'w hystyried mewn rhagor o fanylder yn chwarterol yn hytrach nac yn fisol.

Cafwyd trafodaeth am rinweddau'r opsiynau posibl, a nodwyd fod yr Awdurdod yn awyddus i barhau i gyfarfod yn fisol, ac i flaenoriaethu trafodaethau am faterion strategol, megis cynnwys, dadansoddi a chyfathrebu, yn chwarterol. Penderfynwyd y byddai swyddogion yn ystyried y rhaglen waith ymhellach yn dilyn arweiniad yr Awdurdod, gan gyflwyno argymhelliad o batrwm a rhaglen waith i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Medi.

Kathryn Morris

Diolchodd y Prif Weithredwr i Kathryn Morris, oedd yn mynychu ei chyfarfod Awdurdod olaf. Ategwyd hyn gan y Cadeirydd a'r Aelodau. Diolchodd am ei chyfraniad sylweddol i S4C.

Cyfarfodydd

Adroddodd IHJ ar nifer o gyfarfodydd yr oedd wedi'i mynychu yn

ystod y mis, gan gynnwys sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Dethol CMS i'r BBC ac adolygiad y Blaid Lafur o'r diwydiannau creadigol.

6. **Adroddiad Ariannol**

Cyflwynodd KM yr Adroddiad Ariannol, gan nodi nad oedd unrhyw beth penodol i'w adrodd y mis hwn. Nododd fod y system gyfrifiadurol ariannol bellach yn weithredol.

7. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu**

Yn absenoldeb GLL trafodwyd yr adroddiad ysgrifenedig.

Cafwyd trafodaeth am flaenoriaethau'r strategaeth farchnata, a nodwyd y byddai'n ddefnyddiol i dderbyn adroddiad yn esbonio llwyddiant ymgyrchoedd marchnata o ran cost a denu gwylwyr. Nodwyd fod y Pwyllgor Cynnwys yn awyddus i ystyried sut y mae'r strategaeth farchnata yn cyd-fynd gyda pherfformiad y strategaeth gynnwys.

Cyfeiriwyd at yr adolygiad o anghenion hyfforddiant a nodwyd fod swyddogion yn dal i ddisgwyl ymateb oddi wrth Lywodraeth Cymru i nifer o gwestiynau yn ymwneud â chydweithio a chreu un strategaeth gynhwysfawr. Yn y cyfamser, mae S4C wedi penderfynu symud ymlaen i weithredu cam nesaf y strategaeth, ac mae swyddogion yn y broses o drafod y camau nesaf gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant. Bydd adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno maes o law.

8. **Adroddiad o Bwyllgor Craffu'r Prosiectau Adleoli a Chytleoli**

Cyflwynodd JD adroddiad o gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Craffu a gynhaliwyd ar 30 Mehefin.

Oherwydd amserlen arfaethedig y prosiect adleoli, roedd y Pwyllgor wedi gorfod cyfarfod cyn i'r Awdurdod gael cyfle i gymeradwyo Cylch Gorchwyl ac ethol cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Gylch Gorchwyl drafft ar gyfer gwaith y Pwyllgor ac enwebwyd John Davies fel cadeirydd y Pwyllgor am gyfnod o flwyddyn.

Gofynnwyd i'r Awdurdod gymeradwyo'r Cylch Gorchwyl a gyflwynwyd ym mhapurau'r Awdurdod ac i benodi John Davies yn gadeirydd y Pwyllgor. Cymeradwywyd penodi John Davies yn gadeirydd a'r Cylch Gorchwyl.

Diolchodd JD i'r Awdurdod, a chyflwynodd ei adroddiad am waith y Pwyllgor.

[**Crynodeb:** Roedd y Pwyllgor wedi ystyried materion yn ymwneud â'r Adleoli gan gynnwys enw'r ganolfan, y cwmnïau sydd â diddordeb mewn bod yn rhan o'r cynllun, y strwythur cyfreithiol a'r amserlen.]

Penderfynodd yr Awdurdod i ddirprwyo'r cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Craffu i sicrhau bod amodau a chwestiynau pellach yr Awdurdod wedi eu cyflawni'n ddigonol er mwyn caniatáu i'r Awdurdod arwyddo'r cytundeb fframwaith, ac i JD ystyried os oes angen rhannu gwybodaeth bellach gyda'r Aelodau. Nodwyd fod derbyn sicrwydd derbyniol yn bwysicach na glynu at amserlen arwyddo benodol.

Diolchodd y Cadeirydd i JD am gyflwyno'r adroddiad.

9. **Strategaeth Cynnwys**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd DRh Strategaeth Cynnwys S4C, gan gynnwys gwybodaeth gefndirol am berfformiad a chostau pob genre. Cafwyd trafodaeth am berfformiad y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd a'r heriau sy'n ei wynebu. Yna rhoddwyd amser i drafod natur ieithyddol y gwasanaeth, sut i asesu llwyddiant y strategaeth a'r broses gomisiynu. Bydd y Pwyllgor Cynnwys yn parhau i asesu perfformiad yr amserlen a darpariaeth y genres unigol ar ran yr Awdurdod.]

10. **Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

Cyflwynodd RhT adroddiad o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, a chyfeiriwyd yn benodol at y materion isod.

[**Crynodeb:** Trafodwyd cytundebau'r archwilwyr sy'n dod i ben cyn hir. Er mwyn sicrhau nad ydynt yn syrthio ar yr un adeg, awgrymodd y Pwyllgor ymestyn un cytundeb a thendro'r llall. Cymeradwywyd argymhelliad y Pwyllgor.]

Nododd fod gwaith pellach wedi ei wneud ar ddatblygu'r Map Sicrwydd, a bod y drafft diweddaraf wedi ei seilio ar y gofrestr risg ac felly'n ceisio cyplysu'r prif risgiau gyda'r elfennau sicrwydd perthnasol. Bydd drafft pellach o'r Map yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor a'r Awdurdod.

11. **Rheolau Sefydlog**

Cyflwynwyd drafft newydd o'r Rheolau Sefydlog sy'n ymgorffori nifer o argymhellion Shortridge o ran cynnal cyfarfodydd ar fyr rybudd, cyflwyno gwybodaeth trwy gyfryngau electroneg a'r gallu i gymryd penderfyniadau drwy fwyafrif ysgrifenedig.

Cafwyd trafodaeth am y rheolau ac awgrymwyd y gellid esbonio'n gliriach fod yr Aelodau'n gweithredu yn enw ac ar ran Awdurdod S4C. Cymeradwywyd y Rheolau Sefydlog drafft yn amodol ar gynnwys cymal ychwanegol i nodi hyn. Bydd fersiwn pellach o'r Rheolau Sefydlog yn cael eu cyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi.

Cyfeiriwyd at y Polisi Dirprwyo drafft oedd wedi ei atodi i'r Rheolau Sefydlog ac esboniwyd fod y polisi drafft yn ymgorffori mwyafrif

argymhellion Shortridge o ran cyfrifoldebau'r Awdurdod. Cafwyd trafodaeth am y drafft ac awgrymwyd nad oedd y rhaniad cyfrifoldebau rhwng yr Awdurdod a'r swyddogion yn ddigon clir ym mhob achos. Penderfynwyd y byddai'r Ysgrifennydd yn ystyried sut i ddiffinio'r rhaniad cyfrifoldebau ymhellach ac adrodd yn ôl i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi.

12. **Cwynion**

Cyflwynwyd yr adroddiad cwynion.

13. **Adroddiad y Wifren**

Cyflwynwyd adroddiad y Wifren.

14. **Rhaglen waith yr Awdurdod**

Yn dilyn y drafodaeth uchod, nodwyd y byddai drafft pellach o'r Rhaglen Waith yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ym mis Medi.

15. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Awdurdod ar ddydd Iau, Medi 18fed.